

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 03/11/2015

PWNC / SUBJECT

Eitem 6: Gwasanaeth Llyfrgell

Item 6: Library Service

PENDERFYNIAD / DECISION

Gohirio'r penderfyniad terfynol ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd tan ar ôl Her Gwynedd.

To defer the final decision on the Gwynedd Library Service Strategy until after the Gwynedd Challenge (Her Gwynedd).

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION

Yn sgil derbyn adroddiad yr ymgynghoriad, a diweddariad o'r asesiad effaith cydraddoldeb mae'r Gwasanaeth Llyfrgell angen ystyried a chraffu'r argymhellion a'r dystiolaeth sydd wedi ei dderbyn yn fanylach.

Mae pwysau cynyddol toriadau parhaus yn golygu bod yn rhaid i Gyngor Gwynedd wneud toriadau gwerth oddeutu £7miliwn. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gofyn barn trigolion y sir ar pa wasanaethau lleol i'w gwarchod a pha rai i'w torri drwy Her Gwynedd. Bydd Her Gwynedd yn gyfle i drigolion y sir roi eu barn ar warchod y gwasanaeth llyfrgell a'i osod o fewn eu blaenoriaethau ymhlith pecyn ehangach o wasanaethau. Bydd angen ystyried canlyniadau Her Gwynedd a blaenoriaethau pobl Gwynedd cyn symud ymlaen gyda datblygu Strategaeth "Mwy na Llyfrau" y Gwasanaeth Llyfrgell a model darparu i gyflawni'r strategaeth honno.

Yn ategol, heb sicrwydd o gyllideb y Gwasanaeth Llyfrgell i'r dyfodol ni ellir symud ymlaen i ddatblygu'r Strategaeth.

In light of receiving the consultation report, and an update of the equality impact assessment, the Library Service needs to consider and scrutinise the recommendations and evidence received in more detail.

The ongoing increasing pressure of cuts means that Gwynedd Council will have to implement cuts of approximately £7 million. The Council is currently seeking the opinions of the county's residents on which local services should be safeguarded and which should be cut via Her Gwynedd. Her Gwynedd will be an opportunity for residents to give their opinion on safeguarding the Library Service and an opportunity to set it within their priorities within a broader package of services. It will be necessary to consider the outcomes of Her Gwynedd and the priorities of the

people of Gwynedd before moving on to develop the Library Service's "More than Books" Strategy and a delivery model to achieve that strategy.

In addition, without the assurance of the Library Service's budget for the future, we cannot move forward in developing the Strategy.

SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Tai, Llyfrgelloedd, Gofal Cwsmer, Amddifadedd a Chydraddoldeb.

Yn ystod y drafodaeth codwyd yr ystyriaeth ehangach o ddefnydd adeiladau'r Cyngor, a thra'n derbyn fod y Cynllun Asedau wedi gwneud hyn yn y gorffennol, crybwyllwyd yr angen i edrych eto ar yr adeiladau oedd gennym.

Dylid gofyn am asesiad o gyfleoedd sydd gan y Cyngor ar gyfer gwneud gwell defnydd o'i adeiladau er mwyn mesur eu potensial at ddefnydd ehangach na'u bwriad gwreiddiol.

The report submitted by the Cabinet Member for Housing, Libraries, Customer Care, Deprivation and Equality was accepted.

During the debate the wider issue of the use of the Council's buildings was raised. Whilst accepting that the Assets Plan has looked at the issue in the past, it was mentioned that the matter should be revisited.

A request should be made for an assessment of opportunities available to the Council to make better use of its buildings, and to measure their potential for wider use than their original purpose.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Mae'r argymhelliad yn y papur yn un synhwyrol gan ei fod yn galluogi gwneud y penderfyniad am ddyfodol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yng nghyd-destun y penderfyniadau allweddol eraill y bydd y Cyngor yn ei wneud am ei holl wasanaethau. Rwy'n cefnogi'r argymhelliad.

The recommendation in the paper is sensible as it enables the decision on the future of the Library Service to be made in the context of other key decisions that the Council will make about all its services. I support the recommendations

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Mae'r adroddiad yn cydnabod fod effaith posib canlyniadau Her Gwynedd ar adnoddau y Gwasanaeth yn allweddol i ddod i benderfyniad. Oherwydd fod proses ymgynghori wedi ei dilyn wrth ddatblygu'r strategaeth newydd a bod angen gwaith

pellach ar faterion megis canlyniadau'r asesiad cydraddoldeb mae'r argymhelliad yn briodol ar y pwynt yma. Bydd angen adolygu'r llwybr i benderfyniad pan fydd y sefyllfa yn eglurach.

The report recognises that the possible impact of the Gwynedd Challenge on the Service's resources is key in reaching a decision. As a consultation process has been undertaken as part of the development of a new strategy, and as further work is required on matters such as the outcome of the equality assessment, the recommendation is appropriate at this point. The path to reaching a decision will need to be reviewed when there is further clarity on the situation.

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Fel cyfraniad tuag at darged arbedion effeithlonrwydd yr Adran Economi a Chymuned, cyflwynwyd cynllun "Ail-fodelu'r Gwasanaeth Llyfrgell" gwerth £169,000. Yn y Cabinet ar 16 Rhagfyr 2014, gohiriwyd gweithredu'r cynllun hwnnw, a chynhaliwyd ymgynghoriad adrannol gyda chasgliad yn cynnig arbediad llai (£75,000) drwy "fodelau cymunedol". Nid yw cyllideb 2015/16 yn ddibynnol ar wireddu'r arbedion hyn, ond roedd strategaeth ariannol 2015/16 - 2017/18 yn disgwyl cyfraniad o'r Gwasanaeth Llyfrgell tuag at arbedion effeithlonrwydd pellach.

Erbyn hyn, rhoddir ystyriaeth i fwy o arbedion / toriadau i'r Gwasanaeth Llyfrgell yn yr ymgynghoriad "Her Gwynedd" cyfredol. Felly, mae'n rhesymegol i'r Cabinet ystyried dyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell, a'r holl arbedion / toriadau perthnasol, fel rhan o'i benderfyniadau ar y toriadau yn sgil "Her Gwynedd" (yn y cylch sy'n arwain at gyfarfod 3 Mawrth 2016 o'r Cyngor llawn).

As a contribution towards the Economy and Community Department's efficiency savings target, a plan to "Re-model the Library Service", worth £169,000, was submitted. At the Cabinet's meeting on 16 December 2014, it was agreed to postpone the implementation of this plan, and a departmental consultation was held with the outcome proposing a reduced saving (£75,000) through "community models". The 2015/16 budget is not dependent upon realising these savings, but the financial strategy for 2015/16 - 2017/18 anticipated a contribution from the Library Service towards further efficiency savings.

The ongoing "Gwynedd Challenge" consultation is now considering further savings / cuts to the Library Service. It is therefore logical for the Cabinet to consider the future of the Library Service, and all the relevant savings / cuts, as part of its decisions on cuts following the "Gwynedd Challenge" (in the cycle which will culminate in the meeting of the Full Council on 3 March 2016).

BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER

Ddim yn berthnasol.

Not relevant.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 03/11/2015

PWNC / SUBJECT

Eitem 7: Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015/16 – meysydd Amgylchedd, Amddifadedd, Economi a Chymuned ac Iechyd, Gofal a Lles

Item 7: Overview of Gwynedd Council's Performance 2015/16 – fields of Environment, Deprivation, Economy and Community and Health, Care and Well-being

PENDERFYNIAD / DECISION

Derbyn a nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad i'r cyfarfod, gan ddiolch i staff y Cyngor am gynnal lefelau perfformiad.

Gweithredu ar y canlynol –

- Cynnal trafodaethau gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd er mwyn amlygu'r pryderon recriwtio fel ag y nodir yng nghymal 4.3 o'r adroddiad, a cheisio datrysiad.
- Parhau i geisio darganfod dulliau o wella perfformiad, gan ganolbwyntio ar ganfod datrysiadau ar gyfer meysydd ble nad ydi'r Cyngor yn llwyddo i ateb gofynion pobl Gwynedd.

To accept and note the information in the report that was submitted to the meeting, expressing gratitude to Council staff for maintaining performance levels.

To act on the following -

- *Hold discussions with the Health and Social Services Minister and the Deputy Health Minister to highlight the recruitment concerns as noted in clause 4.3 of the report, and to seek a solution.*
- *Continue to seek to find methods to improve performance, focussing on finding solutions for fields where the Council has not succeeding in addressing the requirements of the people of Gwynedd.*

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION

Mae holl dimau gwasanaeth y Cyngor wedi dechrau adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac yn ystyried a oes lle i wella. Y rhain yw egwyddorion Ffordd Gwynedd. Mae'r timau yn edrych ar ddiffinio eu pwrpas drwy lygaid pobl Gwynedd fel bod modd cadw'r ffocws ar ein cwsmeriaid. Ar yr un pryd maent wedi bod yn edrych ar sicrhau bod y pethau cywir yn cael eu mesur ac mae gwaith pellach i'w wneud ar hyn. Mae hyn yn drefn newydd i swyddogion y Cyngor, ac yn rhan o roi Ffordd Gwynedd ar waith.

Mae'r aelodau Cabinet unigol yn gyfrifol ac yn atebol am berfformiad y timau gwasanaeth sydd yn rhan o'u portffolio. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o berfformiad y meysydd hynny. Cyflwynir perfformiad y meysydd eraill, sef Cyngor Effeithiol ac Effeithlon, Plant a Phobl Ifanc, Diogelu, Y Gymraeg a Chynllunio Ariannol mewn adroddiad trosolwg ar wahân.

Hwn yw'r cyfle cyntaf inni edrych ar drosolwg o berfformiad y Cyngor yn 2015-16. Mae'n adlewyrchu'r newid diwylliant sydd yn digwydd ymysg gwasanaethau'r Cyngor er mwyn edrych ar ein gwasanaethau trwy lygaid y dinesydd.

Gwelir bod gwaith ar y prosiectau strategol yn symud ymlaen fel ag a gynlluniwyd yn y Cynllun Strategol, gyda cherrig milltir wedi eu gosod a chynnydd yn cael ei fesur yn eu herbyn.

All of the Council's service teams have started reflecting on their current work arrangements, challenging whether they put the people of Gwynedd central, and considering whether there is room to improve. These are the principles of Ffordd Gwynedd. The teams are looking at defining their purpose from the perspective of the people of Gwynedd so that it is possible to keep the focus on our customers. At the same time, they have been looking at ensuring that the right things are being measured and there is further work to be done on this. This is a new arrangement for Council officers, and is part of putting Ffordd Gwynedd into practice.

The individual Cabinet members are responsible and accountable for the performance of the service teams which are part of their portfolio. This report offers an overview of the performance of those fields. The performance of the other fields, namely Effective and Efficient Council, Children and Young People, Safeguarding, the Welsh Language and Financial Planning will be introduced in a separate overview report.

This is the first opportunity for us to look at an overview of the Council's performance in 2015-16. It reflects the culture change which needs to happen amongst the Council's Services in order to look at our Services from the citizen's perspective.

It is seen that the work on the strategic projects is moving forward as planned in the Strategic Plan, with milestones being set and progress being measured against them.

SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Arweinydd.

The report submitted by the Leader was accepted.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive*:-

Rwy'n cymeradwyo'r adroddiad. Mae parhau i wireddu ar y prosiectau a'r mesuryddion allweddol hyn yn bwysig ond hefyd yn anodd ar adeg o gynni ar adnoddau o ran arian a staff.

I approve of the report. Continuing to realise these key projects and indicators is important but also difficult at a time of financial and staffing constraints.

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer*:-

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

No observations to add in terms of propriety.

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

Nothing to add in terms of financial propriety.

BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER

Ddim yn berthnasol

Not relevant
